Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 29.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## NEWYDDION: Uchelgais Gogledd Cymru – Lansio prosiect cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi creu hanes gyda lansio'r prosiect cyntaf dan y cynllun, sef cyfleusterau newydd Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) Prifysgol Bangor. Mae mwy am y stori yma ar:

https://bit.ly/3BipNN7

## ARIANNU: Galwad cyllid arloesi busnesau bach a chanolig – AgorIP

Mae prosiect AgorIP yn gwahodd busnesau bach a chanolig i wneud cais am gymorth a chyllid. Gall AgorIP helpu busnesau bach a chanolig i wireddu potensial eu syniadau, eu cynnyrch neu eu hymchwil, ac mae eu harbenigwyr ar gael i helpu i fynd ag IP (Eiddo Deallusol) i'r farchnad a'i wneud yn llwyddiant masnachol. Mae ceisiadau ar agor a'r dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yw 31 Awst 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.agorip.com/cy/bbachgalw2022/

## ARIANNU: Cyllid Grant Cymunedau Gwydn – Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru £2 filiwn o gyllid grant ar gael i helpu unigolion a sefydliadau i gynyddu cyfranogiad y gymuned ym myd natur er mwyn meithrin cymunedau gwydn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3Q4Opxa

## IECHYD A DIOGELWCH: Risg Legionella o dybiau poeth a phyllau sba

Os ydych yn rhedeg gweithgaredd masnachol neu fusnes (yn cynnwys llety gwyliau) sydd â thwb poeth neu sba, yna mae gennych ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i sicrhau eich bod wedi asesu'r risg gan Legionella a rhoi mesurau priodol ar waith. Mae canllawiau ar gael ar:

https://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg282.htm

## MARCHNATA: Marchnata E-bost Effeithiol

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn cynnig gweithdy ar-lein am ddim ar 17 Awst 2022, i ddangos sut i greu strategaeth

marchnata e-bost lwyddiannus, un o'r dulliau marchnata ar-lein rhataf a mwyaf effeithiol sydd ar gael. Bydd y gweithdy yn trafod sut i adeiladu rhestr e-bostio o fewn ffiniau rheoliadau, fel y GDPR a PECR, targedu cynulleidfaoedd a defnyddio templedi a chreu negeseuon e-bost sy'n hoelio sylw cwsmeriaid. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3cEBL9y

# CYFLE: Gwerthwch i Gymru Cais am Ddyfynbris (CAD): Ymgynghorwyr Gwerthuso

Mae'r CAD hwn yn gwahodd unigolion a busnesau sydd â'r arbenigedd angenrheidiol, i ddyfynnu pris ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghorol i ymgymryd â gwerthusiadau ariannol cynhwysfawr yng nghyswllt ceisiadau am fenthyciad busnes neu grant a dderbynnir gan Wasanaeth Economi & Chymuned Cyngor Gwynedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3zjKISH

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru